**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

09 Awst 2023

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023**

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor am y bwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023 erbyn 30 Awst 2023.

Cefais lythyr oddi wrth y Gweinidog Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon AS yn gofyn am gydsyniad ar gyfer y Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliad yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban a Gogledd Iwerddon ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir o dan baragraff 8C(1) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae hwn yn bŵer i Weinidog y Goron wneud rheoliadau mewn cysylltiad â Phrotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y cytundeb ymadael. Mae'r OS yn ymwneud â gweithredu Fframwaith Windsor, fel y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE ar 27 Chwefror 2023.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Diben y Rheoliadau yw diogelu bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Mae'r diwygiadau a gynhwysir yn y Rheoliadau yn newid y ffordd y mae planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill yn symud rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon drwy gyflwyno gofynion ar gyfer cynllun Labeli Iechyd Planhigion Gogledd Iwerddon.

Mae cynllun Labeli Iechyd Planhigion Gogledd Iwerddon yn galluogi symud gwahanol blanhigion a chynhyrchion planhigion o weithredwr proffesiynol Prydain Fawr i weithredwr proffesiynol Gogledd Iwerddon. Bydd hyn yn debyg i'r cynllun pasbort planhigion a ddefnyddir yn y DU ar hyn o bryd. Dyma'r planhigion a'r cynhyrchion planhigion sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun Labeli Iechyd Planhigion Gogledd Iwerddon:

- planhigion ar gyfer plannu;
- tatws hadyd;
- cerbydau a pheiriannau sydd wedi'u gweithredu at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth a chyfarpar i'w symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon.

Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a disgwylir y bydd yn cael ei osod gerbron Senedd y DU ar 30 Awst 2023 gyda dyddiad cychwyn o 1 Hydref 2023.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol bod sylwedd y diwygiadau yn gymwys i Gymru. Mae'r OS yn ymwneud â maes datganoledig, ond mae'r OS yn gweithredu ledled Prydain Fawr ac yn cael effaith o ran derbyn nwyddau i Ogledd Iwerddon. Mae hefyd yn gosod gofynion ar weithredwyr Gogledd Iwerddon. O ystyried y defnydd i Ogledd Iwerddon, ni fyddai o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru i wneud yr OS hwn yn gyfan gwbl ar gyfer Cymru yn unig. Yn ogystal, nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r rheoliadau ar gael mewn un offeryn. Mae gwneud y rheoliadau ledled Prydain Fawr hefyd yn sicrhau na fydd unrhyw berygl o wahaniaeth deddfwriaethol yn y DU a fyddai'n debygol o beryglu gweithrediad Fframwaith Windsor.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (CCEI).

Yn gywir

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**